

YN RHANNOL EITHRIEDIG

CYD-BWYLLGOR CORFFORDEDIG

25 Medi 2026

TEITL: Newidiadau i Aelodaeth Is-bwyllgorau'r CBC a Phenodiad Aelod Lleyg
AWDUR: Mark Watkins, Swyddog Monitro

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi newidiadau i gynrychiolaeth Cyngor Sir Ddinbych ar y CBC a'i is-bwyllgorau, ac yn ceisio un penodiad: Dewi Lewis fel aelod lleyg o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 1.2. Mae'r Swyddog Monitro wedi gwneud y penodiadau i'r Is-bwyllgorau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio Strategol yn unol â'r dirprwyaeth a gymeradwywyd gan y CBC ar 21 Mehefin 2024. Cyflwynir y rhain er gwybodaeth. Mae Atodiad 1 yn nodi'r newidiadau a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn unig.
- 1.3. Mae curriculum vitae yr ymgeisydd yn cael ei ddarparu ar wahân fel Atodiad Eithriedig 2 (nid ar gyfer ei gyhoeddi). Mae gweddill yr adroddiad hwn yn gyhoeddus.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig:

- 2.1. Nodi bod y Cynghorydd Hugh Evans, fel Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, yn aelod o'r CBC a'i Is-bwyllgor Lles Economaidd yn rhinwedd y swydd honno.
- 2.2. Nodi penodiadau'r Swyddog Monitro o dan y ddirprwyaeth dyddiedig 21 Mehefin 2024, sef y Cynghorydd James Elson i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a'r Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, fel y nodir yn Atodiad 1.
- 2.3. Penodi Dewi Lewis yn aelod lleyg o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o bedair blynedd o ddyddiad effeithiol y penodiad, yn amodol ar gwblhau'r cytundeb cyd-ethol perthnasol.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae'r newid yn arweinyddiaeth a phortffolios Cabinet Sir Ddinbych yn golygu bod angen diweddaru cofnodion aelodaeth y CBC.
- 3.2. Ar 21 Mehefin 2024, awdurdododd y CJC i'r Swyddog Monitro dderbyn hysbysiadau ysgrifenedig am newidiadau i'r Is-bwyllgorau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio Strategol, ac i benodi aelodau cyf-etholedig newydd yn eu lle, ar yr amod bod yr penodiadau'n cael eu

hadrodd yng nghyfarfod nesaf y CBC. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni'r gofyniad hwnnw o ran adrodd.

- 3.3. Mae swydd wag wedi codi ymhlith y tri aelod lleyg o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r penodiad arfaethedig i lenwi'r swydd wedi'i gadw ar gyfer y CBC.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych ei drefniadau arweinyddiaeth a phortffolios y Cabinet diwygiedig ar 8 Medi 2026. Daeth y Cynghorydd Hugh Evans yn Arweinydd; mae'r Cynghorydd James Elson yn ddeilydd y portffolio Amgylchedd a Thrafnidiaeth; ac mae'r Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams yn ddeilydd y portffolio Tai a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 4.2. Mae aelodaeth y Cynghorydd Hugh Evans o'r CBC yn deillio o'i swydd fel Arweinydd. Fel aelod o'r Cyngor ar y CBC, mae hefyd yn aelod o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd. Nid oes angen penodiad newydd i'r CBC ar gyfer y naill swydd na'r llall.
- 4.3. At ddibenion gofyniad portffolio Polisi Cynllunio'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, mae cyfrifoldeb am y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i drin fel y swyddogaeth polisi cynllunio berthnasol. Ar y sail honno, mae'r Swyddog Monitro wedi penodi'r Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams o dan y drefn ddirprwyo bresennol, ac wedi penodi'r Cynghorydd James Elson i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn yr un modd. Mae'r penodiadau hyn wedi'u cofnodi yn Atodiad 1.
- 4.4. Mae'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys chwe aelod etholedig a thri aelod lleyg. Mae'r CBC yn penodi ei aelodau lleyg am dymor o bedair blynedd yn unol â'r trefniadau penodi sefydledig.
- 4.5. Mae'r penodiad arfaethedig yn dilyn y swydd wag a gododd yn sgil ymddiswyddiad Carys Edwards. Enwebwyd Dewi Lewis gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd ar 9 Gorffennaf 2026. Mae'n aelod lleyg ac yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwnnw, ac mae ganddo brofiad blaenorol o lywodraeth leol a datblygu cymunedol sy'n berthnasol i swyddogaethau llywodraethu ac archwilio'r CBC. Gofynnir i'r CBC benderfynu ar ei benodiad.
- 4.6. Mae CV yr ymgeisydd yn cynnwys manylion cyswllt preifat a gwybodaeth bersonol sensitif arall. Caiff ei ddarparu ar wahân fel Atodiad 2 Eithriedig. Os oes angen i Aelodau drafod y wybodaeth honno, rhaid i'r CBC benderfynu gwahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer y rhan honno o'r eitem.

5. GOBLYGIADAU ADNODDAU

Mae penodiad yr aelod lleyg yn gofyn am waith arferol Gwasanaethau Democrataidd a gweinyddiaeth gyfreithiol. Telir unrhyw daliadau a threuliau yn unol â threfniadau cymeradwy'r CBC, yn amodol ar gadarnhad gan y Swyddog Adran 151.

6. YMGYNGHORIAD

- 6.1. Mae portffolios a hysbysiadau Cabinet diwygiedig Cyngor Sir Ddinbych wedi llywio'r penodiadau a wnaed o dan ddirprwyaeth gan y Swyddog Monitro. Dylid cadw hysbysiadau ysgrifenedig a chofnodion penodi gyda chofnodion llywodraethu'r CBC.
- 6.2. Enwebodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd Dewi Lewis ar 9 Gorffennaf 2026. Dylid cadarnhau'r swydd wag, cymhwysedd a chydysniad yr ymgeisydd, ac unrhyw enwebiadau eraill, cyn i'r CBC ystyried y penodiad.

7. ASESIAD EFFAITH INTEGRDIG

7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wrth lunio'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd llesiant sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau andwyol penodol.

7.2. Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi cael eu hystyried. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau andwyol penodol.

7.3. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i oblygiadau'r argymhellion yn yr adroddiad hwn o ran y Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau niweidiol.

7.4. Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

Ddim yn berthnasol

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae adrannau 5.2.1, 5.8.3 a 5.9.3 o Gyfansoddiad y CJC yn darparu fframwaith penodi i is-bwyllgorau a gofynion portffolio perthnasol Polisi Trafnidiaeth a Pholisi Cynllunio. Mae penderfyniad 21 Mehefin 2024 yn dirprwyo penodiadau newydd i'r Swyddog Monitro ar hysbysiad ysgrifenedig, yn amodol ar eu hadrodd i gyfarfod nesaf y CBC. Gofynnir i'r CBC nodi, nid ail-wneud, y penodiadau i'r Is-bwyllgorau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio Strategol.

8.2. Mae Adran 5.11.3 o'r Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu ar gyfer chwe aelod etholedig a thri aelod lleyg, gyda phenodiadau'n cael eu gwneud gan y CBC. Mae'r cyfnod swydd arfaethedig o bedair blynedd yn gyson â'r trefniadau presennol ar gyfer penodi aelodau lleyg. Dylid gwirio cymhwysedd, cydsyniad a'r swydd wag cyn gwneud y penderfyniad.

8.3. Mae apwyntiadau presennol yn parhau yn unol â'u telerau unigol ac ni chânt eu hadnewyddu yn unig oherwydd bod blwyddyn y Cyngor newydd wedi dechrau. Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal y gofrestr aelodaeth lawn ar wahân; nid oes angen ei hatodi i'r adroddiad hwn.

8.4. Mae'r Swyddog Monitro wedi adolygu Atodiad 2 (sydd yn eithriedig) ac wedi ystyried y budd cyhoeddus o ran datgelu'r wybodaeth yn erbyn y budd cyhoeddus o ran cynnal yr eithriad. Mae'r atodiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol am yr unigolyn y bwriedir ei benodi, gan gynnwys gwybodaeth o natur sensitif. Gan ystyried paragraff 12 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i cymhwysir i'r CBC gan reoliad 26 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021, mae'r Swyddog Monitro yn fodlon bod y budd cyhoeddus o gynnal yr eithriad yn drech na'r budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth.

8.5. Caiff y diddordeb cyhoeddus mewn tryloywder ei ddiwallu drwy nodi'r person a enwebwyd a'i brofiad perthnasol yn yr adroddiad cyhoeddus. Yn unol â hynny, caiff Atodiad 2 (sydd yn eithriedig) ei gadw'n ôl rhag cael ei gyhoeddi, a rhaid ei farcio fel "Heb ei fwriadu i'w gyhoeddi" yn unol â rheoliad 18(7). Os oes angen trafod y wybodaeth sydd wedi'i heithrio, rhaid i'r CBC yn gyntaf basio penderfyniad o dan reoliad 16(6) a (7) i wahardd y cyhoedd rhag bod yn bresennol ar gyfer y rhan honno o'r eitem.

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Dylai'r Swyddog Adran 151 gadarnhau y gellir talu tâl a threuliau'r penodiad o fewn y ddarpariaeth gyllidebol gymeradwyedig bresennol.

ATODIADAU:

ATODIAD 1	Newidiadau i aelodaeth a phenodiadau sydd angen penderfyniad
EITHRIEDIG Atodiad 2	Dewi Lewis CV — nid ar gyfer ei gyhoeddi

DOGFENNAU CEFNDIROL:

Cyfansoddiad CBC Gogledd Cymru; penderfyniad y CBC dyddiedig 21 Mehefin 2024 ynghylch cyfethol ar gyfer Cynllunio a Thrafnidiaeth.

Adroddiad penodiad ar gyfer Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r CBC, 17 Ionawr 2025; Penderfyniad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd, 9 Gorffennaf 2026; Cyhoeddiad Cabinet Sir Ddinbych, 8 Medi 2026.

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwyf wedi fy modloni bod yr argymhellion yn cyd-fynd â Chyfansoddiad y CBC a'r fframwaith statudol perthnasol.

Rwyf hefyd wedi fy modloni bod trin Atodiad 2 fel gwybodaeth eithriedig yn gyfiawnhadadwy o dan y darpariaethau perthnasol ar gyfer mynediad at wybodaeth, ar ôl ystyried y prawf budd cyhoeddus perthnasol."

ii. Swyddog Adran 151:

"Mae cyllideb eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer y costau democrataidd sy'n deillio o'r materion a amlinellir yn yr adroddiad. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad y ceisir ei wneud."

ATODIAD 1

Newidiadau i aelodaeth a phenodiadau sydd angen penderfyniad

Mae'r atodlen hon yn cofnodi'r newidiadau y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â nhw yn unig. Cedwir y gofrestr aelodaeth lawn o'r CBC ar wahân gan y Gwasanaethau Democrataidd.

Newidiadau i'w nodi (dim penodiad pellach gan y CBC):

- Cyng Hugh Evans — Is-bwyllgor y CBC a Lles Economaidd: aelodaeth yn deillio o'i swydd fel Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.
- Cyng James Elson — Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol: wedi'i benodi gan y Swyddog Monitro o dan y ddirprwyaeth dyddiedig 21 Mehefin 2024.
- Cyng Geraint Lloyd-Williams — Is-bwyllgor Cynllunio Strategol: wedi'i benodi gan y Swyddog Monitro o dan y ddirprwyaeth dyddiedig 21 Mehefin 2024, ar sail ei gyfrifoldeb am y Cynllun Datblygu Lleol.

Penodiad i'w benderfynu:

- Mr. Dewi Lewis — Aelod lleyg o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, am bedair blynedd o ddyddiad y penodiad.